Cymhorthydd Dysgu Lefel 2

Cyfeirnod y Swydd: YPPS00042W1RDE
Lleoliad: Ysgol Pant Pastynog
Cyflog: Graddfa 3 (£12,873 - £13,393)
Oriau: 30awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn unig
Math o gytundeb: Tymor Penodol i ddechrau 01/09/2021 – 31/08/2022
Swydd allanol

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr brwdfrydig ac ymroddgar i ymgeisio am y swydd yn yr ysgol hapus a llwyddiannus uchod.

Mae'r Corff Llywodraethol yn awyddus i benodi Cymhorthydd Dysgu brwdfrydig i'r ysgol. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio o dan gyfarwyddyd/arweiniad staff addysgu i helpu disgyblion ddatblygu eu sgiliau. Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Am fwy o fanylion am y swydd hon gellir cysylltu gyda'r Pennaeth ar 01745 890331.

Bydd y penodiad yn amodol ar Wiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a geirdaon boddhaol.

Os oes gennych ddiddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein drwy wefan www.sirddinbych.gov.uk; mae'n rhaid i ymgeiswyr lenwi ein ffurflen gais i gael eu hystyried.

Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn pythefnos o'r dyddiad cau, fe ddylech gymryd yn ganiataol nad ydych ar y rhestr fer ar gyfer cyfweliad.

Dyddiad Cau: **Dydd Sul, 11/07/21**

Dyddiad Cyfweliad: **wythnos yn dechrau 12fed o Orffennaf 2021**

This Advert is for a Teaching Assistant for which the ability to speak Welsh is an essential requirement.

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.